



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

DEDDF PRIFFYRDD 1980 – ADRAN 228

GAN NAD YW'R stryd a ganlyn, fel y'i dangosir ar y cynlluniau a adneuir yn swyddfeydd y sawl sydd wedi arwyddo isod, ar ddyddiad yr Hysbysiad hwn, yn briffordd sy'n cael ei chynnal ar gost y cyhoedd ond yn stryd o fewn ystyr Deddf Priffyrdd 1980, ac wedi cael ei chyweirio at fy moddhad, sef:-

THE UPLANDS, TRECelyn – y darn o ffordd yr ystâd dan yr enw **THE UPLANDS, TRECelyn** sy'n rhedeg i gyfeiriad y gogledd am 91 o fetrau, fwy neu lai, gellir gweld copi o'r lluniau yma [\(insert CCBC website url\)](#).

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr adran Gweithrediadau Priffyrdd, drwy ffonio 01495 235718 neu e-bostio BARRYGJ@CAERFFILI.GOV.UK

Dylid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r hysbysiad arfaethedig, ynghyd â'r rheswm dros wneud hynny, drwy e-bostio BARRYGJ@CAERFFILI.GOV.UK erbyn 30 Ebrill 2022.

YN AWR mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel yr awdurdod gwaith stryd ar gyfer yr ardal uchod, drwy hyn, yn datgan y bydd y stryd uchod yn briffordd sy'n cael ei chynnal ar gost y cyhoedd ymhen cyfnod o un mis o ddyddiad arddangos yr Hysbysiad hwn am y tro cyntaf, sef un mis o 30 Mawrth 2022.

AR YR AMOD na fydd y stryd yn dod yn briffordd o'r fath os yw perchennog y stryd neu, os oes mwy nag un, y mwyafrif o berchnogion, o fewn y cyfnod uchod o un mis, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i Bennaeth Isadeiledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn y cyfeiriad isod, yn gwrthwynebu hynny.

DRWY ORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Llofnod:

Pennaeth Isadeiledd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Adran Isadeiledd
Swyddfeydd y Cyngor
Tŷ Tredomen
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7WF